Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Presgripsiwn Newydd – Flwyddyn yn Ddiweddarach



**Dyfodol fferylliaeth gymunedol yng Nghymru**

Ionawr 2024

# Cynnwys


**Rhagair** 3

**Cyflwyniad** 4

**Ein diwygiadau** 5

**Flwyddyn yn ddiweddarach – beth sydd wedi'i gyflawni?** 7

- Ehangu rôl glinigol fferyllwyr cymunedol 7
- Gweithlu sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gofal fferyllol eithriadol 12
- Ymrwymiad i ansawdd, cydweithio ac integreiddio mewn gofal sylfaenol 13
- Gwerthfawrogi cyfraniad fferyllfeydd cymunedol i'r GIG 16

**Casgliad** 17



OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG48729, ISBN digidol 978-1-83577-368-0

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Mae fferyllfeydd cymunedol yn gwneud cyfraniad pwysig at iechyd y cyhoedd. Drwy ddarparu gwasanaethau iechyd, mae fferyllfeydd yn denu pobl i ganol trefi a chanolfannau cymunedol. Mae hyn, ynghyd â'u rôl fel cyflogwyr lleol, yn gweithredu fel sbardun economaidd sy'n hyrwyddo cyfalaf cymdeithasol, iechyd a lles mewn cymunedau ledled Cymru.

Ym mis Ebrill 2022, fe wnaethom gyflwyno diwygiadau sylweddol i'r ffordd mae'r GIG yn contractio gyda fferyllfeydd cymunedol, gan annog darparu gwasanaethau clinigol a hyrwyddo integreiddio â chontractwyr gofal sylfaenol eraill, y GIG a gofal cymdeithasol. Yn y flwyddyn gyntaf ers y diwygiadau hynny, mae'r sector fferylliaeth gymunedol wedi dangos ei ymrwymiad i wneud mwy o'r pethau sydd eu hangen ar bobl a'r GIG, gan ddefnyddio sgiliau ac arbenigedd unigryw fferyllwyr a thimau fferylliaeth.

Mae'r diwygiadau a ddisgrifir yn Presgripsiwn Newydd a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 wedi bod yn gatalydd ar gyfer trawsnewid mewn fferylliaeth gymunedol. Gan adeiladu ar gryfderau a gwerthoedd traddodiadol y sector i sicrhau bod meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn parhau i gael eu dosbarthu'n ddiogel, mae fferyllfeydd yn darparu gwasanaethau clinigol yn fwy cyson, a mwy ohonynt nag erioed o'r blaen erbyn hyn. Mae hyn wedi bod yn allweddol wrth ail-lunio'r ffordd mae llawer o bobl yn defnyddio gwasanaethau'r GIG yng Nghymru.

Mae *Presgripsiwn Newydd – Flwyddyn yn Ddiweddarach* yn disgrifio'r cynnydd sylweddol a wnaed ers mis Ebrill 2022. Mae llawer mwy i'w wneud o hyd, ond yr arwydd clir yw bod ein diwygiadau'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar fferyllfeydd, y GIG a phobl Cymru.





**Eluned Morgan AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

# Cyflwyniad

Ym mis Ebrill 2022, cytunodd Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd a Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar ddiwygiadau eang i drefniadau cytundebol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru. Roedd y diwygiadau a ddisgrifiwyd yn fanwl yn Presgripsiwn Newydd (llyw.cymru) yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar fferyllfeydd yn darparu gwasanaethau clinigol, gan gydnabod y manteision i gleifion a'r cyhoedd y gellid eu gwireddu drwy ddefnyddio hygyrchedd rhwydwaith Cymru o tua 700 o fferyllfeydd yn well a sgiliau ac arbenigedd y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ynddynt.

Roedd y cytundeb yn canolbwyntio ar sicrhau gwelliannau mewn mynediad at ofal i gleifion, lleihau'r pwysau ar wasanaethau eraill y GIG a chynyddu'r gyfran o gyllid y GIG sydd ar gael i fferyllfeydd cymunedol a gyfeiriwyd tuag at ddarparu gwasanaethau clinigol. Nod y camau hyn oedd adfywio'r gwaith o ddarparu gofal fferyllol ym mhob cymuned yng Nghymru i ddiwallu anghenion y GIG a phobl yng Nghymru nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn y 12 mis yn dilyn y diwygiadau hynny.

## Fferylliaeth Gymunedol yng Nghymru

Ym mis Mawrth 2023, roedd 708 o fferyllfeydd cymunedol wedi'u lleoli ar y stryd fawr, mewn canolfannau siopa, mewn meddygfeydd ac mewn archfarchnadoedd ym mhob cymuned yng Nghymru. Mae pob bwrdd iechyd yn gwneud trefniadau gyda'r fferyllfeydd hyn i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau'r GIG, gan gynnwys rhoi presgripsiynau, sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn effeithiol, darparu mynediad amserol at gyngor a thriniaeth ar gyfer anhwylderau cyffredin a hyrwyddo a diogelu iechyd a lles pobl drwy ddarparu cyngor ar ffyrdd iach o fyw a brechu rhag clefydau heintus.

Yn ogystal â'u rôl yn darparu gwasanaethau'r GIG, mae fferyllfeydd yn asedau cymunedol, yn ffynonellau cyfalaf cymdeithasol ac yn sbardunwyr economaidd ar ein stryd fawr, gan helpu i gefnogi ac ysgogi'r economi leol, creu cyfleoedd cyflogaeth lleol a denu cwsmeriaid i fusnesau eraill. Mae fferyllfeydd yn rhan hanfodol o economi sylfaenol Cymru, gan helpu i greu a chynnal cymunedau lleol bywiog.



# Ein diwygiadau

Roedd y diwygiadau y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru, y GIG a Fferylliaeth Gymunedol Cymru'n cynrychioli gweledigaeth a rennir ar gyfer trawsnewid Fferylliaeth Gymunedol yng Nghymru mewn pedwar maes allweddol:

1. Ehangu rôl glinigol fferyllwyr cymunedol
2. Gweithlu sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gofal fferyllol rhagorol;
3. Ymrwymiad i ansawdd, cydweithio ac integreiddio o fewn gofal sylfaenol; a
4. Gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae fferyllfeydd cymunedol yn ei wneud i'r GIG.

## Ehangu rôl glinigol fferyllwyr cymunedol

Prif amcan y diwygiadau oedd defnyddio arbenigedd a hygyrchedd fferyllwyr cymunedol yn well, gan wneud fferyllfeydd y lle y bydd pobl yn mynd iddynt gyntaf i gael gofal y GIG am amrywiaeth o gyflyrau y gellir eu rheoli'n ddiogel gan fferyllwyr, y byddai angen iddynt gael eu darparu fel arall gan wasanaethau'r GIG sy'n llai hygyrch neu'n llai priodol. Bwriadwyd y diwygiadau hefyd i sicrhau bod pobl yng Nghymru yn derbyn cynnig mwy cyson gan eu fferyllfa drwy sicrhau bod y gwasanaethau pwysicaf a gynigir drwy rai fferyllfeydd ar gael ganddynt i gyd. Yn ei dro, byddai'r cysondeb cynyddol hwn yn cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau fferylliaeth a hyder y cyhoedd ynddynt, gan arwain at fwy o ddefnydd o fferyllfeydd a llai o bwysau ar rannau eraill o'r GIG.

Ym mis Ebrill 2022, cafodd y pedwar gwasanaeth fferylliaeth gymunedol (y gwasanaethau anhwylderau cyffredin, atal cenhedlu brys, cyflenwi meddyginiaethau brys a'r brechiad ffliw tymhorol) eu cyfuno mewn un Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol (CCPS) newydd. Ymrwymodd y diwygiadau i ehangu'r CCPS i ganiatáu i fferyllwyr ddarparu dulliau atal cenhedlu pontio a dechrau cyflym o ddiwedd 2022.

Roedd y diwygiadau'n cynnwys ymrwymiad hefyd i gyflymu'n sylweddol y broses o gyflwyno rhagnodi annibynnol mewn fferyllfa gymunedol ac i alluogi pob fferyllfa sydd â staff cymwys i ddarparu gwasanaeth rhagnodi annibynnol cenedlaethol newydd. Mae'r Gwasanaeth Rhagnodi Fferyllol Annibynnol (PIPS) yn sicrhau y gellir trin mwy o bobl am gasgliad cynyddol o gyflyrau acíwt a heintiau nad ydynt yn gymhleth, yn ogystal â gwella mynediad at fwy o ddulliau atal cenhedlu drwy'r geg. Mae'r PIPS yn caniatáu i fyrddau iechyd gytuno y gall fferyllfa ddarparu gwasanaethau rhagnodi eraill hefyd i ddiwallu anghenion lleol penodol.

## Gweithlu sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gofal fferyllol rhagorol

Er mwyn ehangu rôl glinigol fferyllwyr cymunedol, mae angen yr wybodaeth a'r sgiliau priodol ar y gweithlu, gan gynnwys ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol i ddod yn bresgripsiynydd. Mae defnyddio sgiliau'r tîm fferyllol cyfan yn hanfodol hefyd i ryddhau fferyllwyr o'r gweithgareddau hynny y gall eraill eu darparu'n ddiogel. Er mwyn hwyluso hyn, cydnabu'r diwygiadau fod angen cynyddu nifer y technegwyr fferyllol sy'n gweithio yn y sector fferylliaeth gymunedol.

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), fel corff gweithlu strategol GIG Cymru, sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gweithlu cymunedol ar gael mewn niferoedd digonol a bod ganddynt sgiliau digonol i gyflawni amcanion y diwygiadau. I wneud hyn, ymrwymodd AaGIC i:

- Gefnogi fferyllwyr cymunedol i hyfforddi fel presgripsiynwyr annibynnol;
- Darparu hyfforddiant technegydd fferyllol cyn-cofrestru, ar ffurf prentisiaethau modern ar gyfer cyflogwyr fferylliaeth gymunedol;
- Sicrhau bod fferyllwyr cymunedol yn gymwys i gael cyllid y GIG ar gyfer addysg ôl-gofrestru estynedig ac uwch, pan fydd hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer y gweithlu;
- Cynnal a gwerthuso'r cynllun peilot amser dysgu gwarchodedig (PLT) i lywio dyfodol PLT ar gyfer fferylliaeth gymunedol.

Roedd y diwygiadau'n cynnwys cymhelliant i'r gweithlu hefyd a oedd yn darparu cymorth ariannol i fferyllfeydd sy'n recriwtio ac yn hyfforddi technegwyr fferyllol.

## Ymrwymiad i ansawdd, cydweithio ac integreiddio mewn gofal sylfaenol

Mae gwella mynediad ac ansawdd mewn gofal sylfaenol yn gofyn am integreiddio fferyllfeydd cymunedol mewn clystyrau gofal sylfaenol a chreu cyfleoedd i fferyllwyr weithio gyda gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol eraill. Gan adeiladu ar y cynllun cydweithio a gyflwynwyd yn 2018, gwnaeth diwygiadau sicrhau bod cyllid ar gael i benodi Arweinydd Cydweithio Fferylliaeth Gymunedol (CPCL) ym mhob clwstwr yng Nghymru. Ymrwymwyd cyllid hefyd i werthuso'r CPCL i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella'r rôl mewn blynyddoedd i ddod.

## Gwerthfawrogi cyfraniad fferyllfeydd cymunedol i'r GIG

Yn 2021/22, gosodwyd cyllid contractau fferylliaeth gymunedol (ac eithrio elw prynu a ddargedwir) ar £151.2 miliwn, gyda £12.4 miliwn (8%) ar gael yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar gyfer gweithgarwch gwasanaeth clinigol. Ymrwymodd y diwygiadau i gynyddu cyllid cyffredinol yn y blynyddoedd i ddod ac i gynyddu cyfran y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau clinigol.



# Flwyddyn yn ddiweddarach – beth sydd wedi'i gyflawni?

## Ehangu rôl glinigol fferyllwyr cymunedol

**Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Clinigol newydd a ddarperir yn gyson**

Ym mis Ebrill 2022, roedd 704 o fferyllfeydd (99.4% o holl fferyllfeydd Cymru) yn darparu'r CCPS a'r pedwar gwasanaeth a oedd yn rhan ohono pan gafodd ei lansio. Cynyddodd nifer y fferyllfeydd sy'n darparu pob un o'r gwasanaethau hyn (y gwasanaethau anhwylderau cyffredin, atal cenhedlu brys, cyflenwi meddyginiaethau brys a'r brechiad ffliw tymhorol) yn dilyn cyflwyno'r diwygiadau (Tabl 1).

**Tabl 1: Canran y fferyllfeydd sy'n darparu pob elfen o'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol cyn ac ar ôl diwygiadau.**


| Gwasanaeth sydd wedi'i gynnwys yn y CCPS | Canran y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth yn union cyn y diwygiadau | Canran y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth flwyddyn ar ôl y diwygiadau | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth anhwylderau cyffredin | 99.3% | 99.4% | 0.1% |
| Atal cenhedlu brys | 90.4% | 99.4% | 9.0% |
| Cyflenwi meddyginiaethau brys | 93.0% | 99.4% | 6.4% |
| Brechiad ffliw tymhorol | 90.4% | 99.4% | 9.0% |

Ers mis Rhagfyr 2022, mae fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r CCPS wedi gallu, ar ôl cwblhau hyfforddiant ychwanegol, darparu Gwasanaeth Atal Cenhedlu Pontio a Dechrau Cyflym hefyd gyda 701 o fferyllfeydd (99.0%), yn darparu'r elfen atal cenhedlu ychwanegol hon ddiwedd mis Mawrth 2023.

### Cynyddu maint y gweithgarwch gwasanaeth clinigol a gynhelir mewn fferyllfeydd cymunedol


Yn ogystal â'r gyfran uwch o fferyllfeydd sy'n darparu pob un o elfennau'r CCPS, roedd y diwygiadau'n gysylltiedig â chynnydd cyffredinol yn nifer yr ymgyngoriadau gwasanaeth clinigol a oedd yn cael eu cynnal (Ffigur un). Cynhaliwyd 117,000 (28.4%) o ymgynghoriadau CCPS ychwanegol yn 2022/23 o gymharu â'r flwyddyn cyn y diwygiadau, gyda lefelau gwasanaeth fwy na dwywaith a hanner yn uwch na lefelau cyn y pandemig.

**Ffigur 1: Cyfanswm yr ymgynghoriadau gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol (swm yr ymgynghoriadau ar gyfer pob elfen) yn y flwyddyn ar ôl y diwygiadau a'r pedair blynedd cyn y diwygiadau**




Parhaodd nifer yr ymgynghoriadau yn y gwasanaethau atal cenhedlu brys a brechiad ffliw tymhorol yn sefydlog yn dilyn y diwygiadau. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd sylweddol mewn cyflenwadau meddyginiaethau brys ac ymgynghoriadau gwasanaeth anhwylderau cyffredin. Pan ofynnwyd iddynt "beth fyddech chi wedi'i wneud pe na bai'r gwasanaeth wedi bod ar gael yn eich fferyllfa?", dywedodd bron i 80% o ddefnyddwyr gwasanaethau y byddent wedi mynd at eu meddyg teulu neu ddefnyddio'r gwasanaeth y tu allan i oriau arferol. Mae hyn yn golygu bod y CCPS wedi arwain at fwy na 400,000 yn llai o ymgynghoriadau meddyg teulu neu y tu allan i oriau arferol yn 2022/23, gan ryddhau'r gwasanaethau hyn i ddarparu gofal i gleifion eraill.

**Ffigur 2: Ymgynghoriadau gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau brys fesul mis yn y flwyddyn ar ôl y diwygiadau a'r pedair blynedd cyn y diwygiadau**





Cynyddodd nifer yr ymgynghoriadau gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau brys fwy na 50% (81,545 o gymharu â 52,744), gyda nifer yr ymgynghoriadau ym mhob mis yn 2022/23 yn uwch na'r mis cyfatebol ym mhob un o'r pedair blynedd cyn y diwygiadau (ffigur 2).

Gwelwyd cynnydd sylweddol yng ngweithgarwch y gwasanaeth anhwylderau cyffredin hefyd, gyda mwy na chwarter miliwn o ymgynghoriadau'n digwydd ers i'r diwygiadau ddod i rym, gan godi i fwy na 300,000 o ymgynghoriadau ers cyhoeddi Presgripsiwn Newydd (llyw.cymru) ym mis Rhagfyr 2021, gyda'r cynnydd yn cyd-daro â mentrau pwysau'r gaeaf a gyhoeddwyd ar 11 Ionawr 2022 (Ffigur 3).

Mae nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru fel defnyddwyr Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd, gyda 74,000 yn fwy o bobl wedi'u cofrestru ym mis Mawrth 2023 o gymharu ag ym mis Ebrill 2022, sef cynnydd o 64%.



**Ffigur 3: Ymgynghoriadau gwasanaeth anhwylderau cyffredin fesul mis rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2023**




O fewn y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin, achredwyd 502 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth Profi a Thrin Dolur Gwddf (STTT) lle gwnaeth fferyllwyr â hyfforddiant ychwanegol asesu mwy na 27,000 o oedolion a phlant dros 6 oed yn glinigol am arwyddion a symptomau dolur gwddf bacterol cyn defnyddio Profion Canfod Antigen Cyflym (RADT) i benderfynu a achoswyd eu symptomau gan heintiad bacteria streptococws sy'n gofyn am wrthfiotigau (a gyflenwyd wedyn gan y fferyllydd) neu gan feirws a oedd angen triniaeth symptomatig yn unig (Ffigur 4).

**Ffigur 4: Ffeithlun i ddangos nifer yr ymgynghoriadau profi a thrin dolur gwddf mewn perthynas â nifer y cleifion sy'n cael RADT a'r nifer sy'n cael gwrthfiotigau am y flwyddyn gyfan 2022/23**

**27,353**
o oedolion a phlant dros 6 oed yn ceisio cyngor fferyllfa oherwydddolur gwddf



**20,550**
yn cael Prawf Canfod Antigen Cyflym (**75%**)



**6,366**
yn cael gwrthfiotigau (**23%**)




Yn ystod mis Rhagfyr 2022, ar anterth y brigiad o achosion Streptococws Grŵp A Ymledol (IGAS), cynhaliodd fferyllwyr 9,521 o ymgynghoriadau profi a thrin dolur gwddf. Darparwyd gwrthfiotigau mewn 15% o ymgynghoriadau'n unig, gan gyfrannu at well stiwardiaeth gwrthficrobaidd ar adeg o alw digynsail.

Parhaodd fferyllfeydd cymunedol i ddarparu mynediad amserol at ddulliau atal cenhedlu brys gyda thros 94% o ymgynghoriadau'n digwydd o fewn 72 awr i gyfathrach rywiol heb ddiogelwch. Mae argaeledd dulliau atal cenhedlu pontio a dechrau cyflym gan fferyllwyr cymunedol ers mis Rhagfyr 2022 yn darparu mynediad uniongyrchol mwy cyfleus at rai mathau o ddulliau atal cenhedlu parhaus heb fod angen eu hatgyfeirio i ddarparwr gwasanaethau arall. Ym mis Mawrth 2023, roedd 701 o fferyllfeydd yn darparu dulliau atal cenhedlu brys a pharhaus, ac roedd 424 o gleifion wedi cael cynnig dull atal cenhedlu dechrau cyflym a phontio. Ym mis Mawrth, arweiniodd 2.7% o ymgynghoriadau ar gyfer atal cenhedlu brys at gyflenwi dulliau atal cenhedlu parhaus.

### Defnyddio sgiliau fferyllwyr-bresgripsiynwyr mewn fferylliaeth gymunedol

Mae'r Gwasanaeth Rhagnodi Fferyllol Annibynnol (PIP) cenedlaethol wedi galluogi fferyllwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i drin casgliad estynedig o anhwylderau a darparu dewis llawnach o ddulliau atal cenhedlu drwy'r geg. Mae hyn yn darparu gwell mynediad ac mae'n helpu i ddargyfeirio cleifion a fyddai wedi ymweld â'u meddyg teulu fel arall. Roedd y gwasanaeth PIP ar gael o 119 o fferyllfeydd (17%) erbyn mis Mawrth 2023, i fyny o 85 ym mis Ebrill 2022, sy'n gynnydd o 40% mewn argaeledd. Cynhaliwyd mwy na 46,000 o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (Ffigur 5), gyda 98% o'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn dweud y byddent wedi ymweld â'u meddyg teulu neu wasanaeth arall y GIG pe na bai'r fferyllydd wedi gallu rhagnodi triniaeth ar eu cyfer.

**Ffigur 5: Ymgynghoriadau'r Gwasanaeth Rhagnodi Fferyllol Annibynnol (PIP) fesul mis ar gyfer y flwyddyn 2022/23 a fferyllfeydd a gofrestrodd i gynnig y gwasanaeth PIP fesul mis ar gyfer 2022/23**



# Gweithlu sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gofal fferyllol eithriadol

### Datblygu gweithlu fferylliaeth gymunedol hynod fedrus

Darperir hyfforddiant clinigol ychwanegol gan AaGIC ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sy'n dymuno darparu gwasanaethau clinigol. Mae'n rhaid i bob fferyllydd a thechnegydd fferyllol sy'n darparu'r gwasanaethau CCPS gwblhau rhaglen Achredu Gwasanaethau Clinigol Cenedlaethol (NCSA) AaGIC, erbyn diwedd mis Mawrth 2023:

Roedd
**2,805**
o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol wedi cwblhau NCSA, gan ganiatáu iddynt ddarparu gwasanaethau clinigol a gomisiynwyd gan GIG Cymru;

Cafodd
**223**
o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol eu hyfforddi gan AaGIC i ddarparu gwasanaethau brechu yn 2022/23;

Chafodd
**1,519**
o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a chynorthwywyr fferyllol eu hyfforddi i gynnig gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu;

Cafodd
**590**
o fferyllwyr eu hyfforddi i gynnig y Gwasanaeth Profi a Thrin Dolur Gwddf

Achredwyd **1,455**
o fferyllwyr i ddarparu'r Gwasanaeth Atal Cenhedlu Brys ac, o'r rhain, achredwyd **865** i ddarparu'r Gwasanaeth Atal Cenhedlu Pontio a Dechrau Cyflym a weithredwyd ym mis Rhagfyr 2022.

### Cefnogi fferyllwyr cymunedol i hyfforddi fel presgripsiynwyr

Ymrwymodd AaGIC i gefnogi 60 o fferyllwyr cymunedol bob blwyddyn i ymgymryd â hyfforddiant Rhagnodi Annibynnol mewn Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru. Yn y flwyddyn yn dilyn y diwygiadau, cefnogodd AaGIC 97 o leoedd hyfforddi ar gyfer fferyllwyr cymunedol, sef cynnydd o 60% o'r nifer a gytunwyd fel rhan o'n diwygiadau, gan ddod â chyfanswm y fferyllwyr cymunedol a gefnogwyd gan AaGIC ers 2020/21 i 202.

### Darparu mynediad at hyfforddiant technegydd fferyllol cyn-cofrestru ar gyfer cyflogwyr fferylliaeth gymunedol

Mae argaeledd ehangach gwasanaethau clinigol o fferyllfeydd yn ddibynnol ar sicrhau bod niferoedd digonol o dechnegwyr fferyllol a'r gweithlu fferyllol ehangach ar gael sydd â chymhwysedd digonol i ymgymryd â rolau a wnaed yn flaenorol gan fferyllwyr.

Yn 2022/23, cefnogodd AaGIC 55 o brentisiaethau modern ychwanegol ar gyfer cyflogwyr fferylliaeth gymunedol. Cafodd cymhelliant ariannol ei gynnwys

fel rhan o'r contract diwygiedig i annog a gwobrwyo'r cyflogwyr hynny a welodd fanteision sicrhau bod technegwyr fferyllol ar gael i hyfforddi a gweithio ochr yn ochr â fferyllwyr yn eu fferyllfeydd. Mae o leiaf 489 o fferyllfeydd (69%) yn cyflogi un neu fwy o dechnegwyr fferyllol bellach, i fyny o 449 ym mis Ebrill 2022 (63%).

### Ehangu rôl technegwyr fferyllol

Roedd y diwygiadau'n galluogi technegwyr fferyllol i ddarparu'r gwasanaeth Adolygiad o Feddyginiaethau wrth Ryddhau (DMR) hefyd sy'n golygu y gallant ymgymryd â rolau mwy clinigol yn awr a fyddai wedi cael eu cyflawni gan fferyllwyr yn draddodiadol. Ar hyn o bryd, mae 161 o dechnegwyr fferyllol wedi'u hachredu i ddarparu'r gwasanaeth DMR, gan ddarparu cymorth hanfodol i gleifion ar ôl eu rhyddhau o'r ysbyty a helpu i atal camgymeriadau o ran rhoi meddyginiaeth ac ail-dderbyniadau.

### Treialu amser dysgu gwarchodedig ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

Yn 2021, gwnaethom gomisiynu AaGIC i gynnal cynllun peilot amser dysgu gwarchodedig (PLT) a gwerthuso effeithiolrwydd amser dysgu gwarchodedig mewn fferylliaeth gymunedol. Daeth y cynllun peilot i ben ym mis Mehefin 2022 ac mae'r canfyddiadau ar gael yma.

## Ymrwymiad i ansawdd, cydweithio ac integreiddio mewn gofal sylfaenol

Mae'r Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol (CPCF) yn parhau i gefnogi cydweithio â darparwyr gofal sylfaenol drwy'r Cynllun Cydweithio. Mae'r cynllun yn darparu cyllid i alluogi fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol i gyfarfod a chydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill mewn clystyrau gofal sylfaenol. Yn 2022/23, cynhaliwyd 2,317 o gyfarfodydd neu fentrau cydweithio sy'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar fanteision gwasanaethau fferylliaeth gymunedol, gwella systemau rhoi presgripsiynau rheolaidd i leihau gwastraff, ac ymgysylltu â blaenoriaethau clwstwr gofal sylfaenol drwy fynychu cyfarfodydd clwstwr.



Yn ogystal, mae cyllid yn parhau i fod ar gael i bob clwstwr yng Nghymru gyflogi Arweinydd Cydweithredol Fferylliaeth Gymunedol (CPCL). Mae dod ag arweinyddiaeth fferylliaeth gymunedol i glystyrau gofal sylfaenol wedi galluogi gwell cydweithio rhwng gweithwyr proffesiynol er budd cymunedau lleol (gweler enghreifftiau).

**Dyma rai enghreifftiau yn unig o brosiectau llwyddiannus sydd wedi'u galluogi drwy'r rôl CPCL:**

## Clwstwr Llanelli



Cynhaliodd **Clwstwr Llanelli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** gynllun peilot am 12 mis, gan ganiatáu i 17 o fferyllfeydd yn ardal y clwstwr ddarparu cymorth cyfeirio iechyd a lles meddyliol. Roedd fferyllwyr a staff fferyllol yn gallu hyfforddi i fod yn hyrwyddwyr iechyd meddwl. Roedd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys dysgu ac asesu cymorth cyntaf iechyd meddwl ar-lein. Roedd y gwasanaeth yn targedu cleifion sydd wedi cael meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn ddiweddar ar gyfer cyflwr iechyd meddwl ac wedi rhoi cyfle i'r claf gael cysylltiad misol â hyrwyddwr iechyd meddwl hyfforddedig yn y fferyllfa. O ystyried llwyddiant y rhaglen hon, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod hyrwyddwr iechyd meddwl hyfforddedig ar gael ym mhob fferyllfa gymunedol yng Nghymru, ac mae AaGIC bellach yn cefnogi'r rôl ar ôl yr hyfforddiant hwn.

## Clwstwr y Cymoedd Uchaf



Llwyddodd **Clwstwr y Cymoedd Uchaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe** i dderbyn cyllid drwy Dîm Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru i lansio cynllun ailgylchu mewnanadlyddion. Roedd y gwasanaeth yn annog cleifion i ddychwelyd mewnanadlyddion diangen neu wedi'u defnyddio i'w fferyllfa leol. Nod y cynllun oedd cynyddu ymwybyddiaeth gyffredinol o waredu mewnanadlyddion yn gyfrifol, ond roedd yn gweithredu hefyd fel cynllun peilot i brofi dichonoldeb a derbynioldeb opsiwn mwy ecogyfeillgar ar gyfer gwaredu mewnanadlyddion. Mae Clwstwr y Cymoedd Uchaf wedi bod yn rhannu eu dysgu gyda Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mewnanadlyddion Cymru sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Dîm Cynaliadwyedd GIG Lloegr a'r Gwledydd Datganoledig. Mae gwledydd eraill y DU yn edrych ar y prosiect peilot yng Nghymru i lywio modelau o wasanaethau gwastraff fferyllol yn y dyfodol a all ddangos arbedion carbon a chyfrannu at darged sero net y GIG.

## Clwstwr Dwyfor



Llwyddodd **Clwstwr Dwyfor ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** i sicrhau cyllid ychwanegol i gefnogi fferyllfeydd yn yr ardal i gyflogi presgripsiynwyr fferyllol annibynnol ychwanegol yn ystod misoedd yr haf. Galluogodd hyn y clwstwr i gynyddu capasiti i reoli'n well y mewnlifiad tymhorol o breswylwyr dros dro sy'n dod ar wyliau i Ben Llŷn dros yr haf. Darparwyd cyllid i gefnogi cyflogi fferyllwyr ychwanegol, yn ogystal ag ymgyrch hysbysebu'n targedu preswylwyr dros dro'r ardal. Helpodd hyn i hwyluso atgyfeiriadau i wasanaethau fferylliaeth a dargyfeirio cleifion a allai fod wedi mynychu meddygfa deulu lleol, uned mân anafiadau, adran damweiniau ac achosion brys neu wasanaeth y tu allan i oriau arferol. Darparodd fferyllwyr yng Nghlwstwr Dwyfor 2,839 o ymgynghoriadau CCPS ac IP yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst 2022, gan lwyddo i leihau'r galw ar ddarparwyr gofal iechyd amgen a chefnogi poblogaeth y clwstwr pan fo'r galw ar ei fwyaf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu gwerthusiad o'r rôl CPCL sydd wedi'i gwblhau bellach ac sy'n aros i gael ei gyhoeddi. https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-rolau-arweinydd-cydweithio-fferylliaeth-gymunedol

Rydym yn bwriadu adolygu canfyddiadau'r gwerthusiad hwn a'u defnyddio i lywio datblygiad y rôl CPCL yn y dyfodol.

### Rhoi mynediad at adnoddau digidol a'r wybodaeth angenrheidiol i bob fferyllfa yng Nghymru

Mae mynediad at offer digidol priodol a bod â gweithlu fferyllol sydd â'r sgiliau a'r cymhwysedd digidol angenrheidiol yn alluogwr allweddol ar gyfer integreiddio fferylliaeth gymunedol o fewn gofal sylfaenol. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) wedi dyrannu 2,400 o drwyddedau Microsoft Office 365 i ddefnyddwyr fferyllfeydd cymunedol, gan gynnwys 345 o dechnegwyr fferyllol. Mae darparu mynediad i e-bost y GIG yn galluogi timau fferylliaeth gymunedol i gyfathrebu'n hyderus ac yn ddiogel â chydweithwyr ar draws GIG Cymru. Mae ymarferoldeb ychwanegol megis Microsoft Teams yn galluogi fferyllfa gymunedol i gydweithio'n fwy effeithiol â fferyllfeydd eraill, gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol eraill a'r GIG.

Mae'r rhaglen Dewis Fferylliaeth sydd ar gael i bob fferyllfa gan DHCW yn galluogi fferyllwyr i gael gafael ar gofnodion meddygol cryno cleifion a rhannu manylion ymgynghoriadau fferylliaeth gyda meddygon teulu'r cleifion yn ddigidol.

## Gwerthfawrogi cyfraniad fferyllfeydd cymunedol i'r GIG

Cynyddodd cyllid contract fferylliaeth gymunedol (ac eithrio elw prynu a ddargedwir) i £157.2 miliwn yn 2022/23, sef cynnydd o £6m (4%) o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. O hyn, roedd £28.9 miliwn (18.3%) ar gael yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar gyfer gweithgarwch gwasanaeth clinigol, sef cynnydd o £16.5 miliwn a oedd yn cynnwys £4.36 miliwn i gefnogi'r gwasanaeth PIPS.

Er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn deall ac yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau mae fferyllfeydd yn eu cynnig, rydym wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau i hyrwyddo'r CCPS a'u dosbarthu i fferyllfeydd ledled Cymru.

Datblygwyd adnoddau pellach i'w defnyddio gan fferyllfeydd i gefnogi'r gwasanaeth STTT ac i annog cleifion i ddychwelyd eu mewnanadlyddion diangen neu wedi'u defnyddio i'w fferyllfa i'w gwaredu yn y ffordd leiaf niweidiol posibl i'r amgylchedd, yn ogystal â chynorthwyo cleifion i gael y gorau o'u mewnanadlyddion, gan gefnogi ein huchelgeisiau yng **Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (llyw.cymru)**.

Mae fferylliaeth gymunedol wedi cael llawer o sylw yn ein hymgyrch 'Helpwch Ni i'ch Helpu Chi' (Ffigur 6).

Dyma ragor o wybodaeth am yr ymgyrch: **Helpwch Ni i'ch Helpu Chi | LLYW.CYMRU**

Dyma ragor o ddeunyddiau cyfathrebu a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru: **Adnoddau Digidol Gwasanaethau Cyfathrebu Llywodraeth Cymru**

**Ffigur 6: Enghreifftiau o rai o'r adnoddau a ddefnyddir i hyrwyddo gwasanaethau fferylliaeth fel rhan o'r ymgyrch 'Helpwch Ni i'ch Helpu Chi'**






# Casgliad

Disgrifiodd Presgripsiwn Newydd uchelgais glir i drawsnewid rôl fferylliaeth gymunedol i ddiwallu anghenion pobl a'r GIG yng Nghymru. Yn y flwyddyn gyntaf ers gweithredu ein diwygiadau, gwnaed cynnydd sylweddol o ran defnyddio sgiliau, arbenigedd a hygyrchedd fferyllwyr yn ein cymunedau yn fwy effeithiol.

Mae ffocws cryfach ar ddarparu gwasanaethau clinigol, ar ddatblygu'r gweithlu, ar hyrwyddo integreiddio fferyllfeydd o fewn gofal sylfaenol ac ar barhau i fuddsoddi yn y sector yn helpu i sicrhau bod mwy o bobl yng Nghymru yn cael mynediad at y gofal GIG sydd ei angen arnynt gan weithwyr proffesiynol medrus priodol, yn agosach at eu cartrefi, pryd bynnag y maent ei angen.

